

## Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd y penwythnos diwethaf am farwolaeth Mrs Mair Owen (Llanfair), un o aelodau hynaf yr Ofalaeth. Er ei bod wedi cyrraedd 98 oed, parhaodd hyd y diwedd yn ffyddlon yn y capel ac yng ngweithgarwch y gymuned. Diolchwn amdani ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i phlant – Gareth, Janet, Gwynnaf, Arwel ac Aledwen, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Hyderwn y cânt oll adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt. Tristwch hefyd oedd clywed am farwolaeth y Parch. Wayne Roberts, un a fu mor weithgar a chymwynasgar, ac a fu'n gefn mawr i ni fel Gofalaeth wrth inni fynd i'r afael â gwahanol faterion Henaduriaethol dros y misoedd diwethaf. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i wraig Anne, a'i ddwy ferch, Elenid ac Undeg, ac â gweddill y teulu. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig y dyddiau hyn ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt yn eu colled.
- Parhawn i gofio am Elsie May Edwards (Llansannan) a Morfudd Williams (Henllan) yn yr Inffirmari. Cyflwynwn y ddwy, ynghyd â phawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.

## I ddod

- **GŴYL DDIOLCHGARWCH LLANNEYFYDD:** Swper a Sgwrs gan y Parch Nan Powell-Davies yn Neuadd Llanneyfydd, nos Fercher, Hydref 19eg am 7.00. Enwau i Manon, Bryn Deunydd neu Marian, Bodysgaw Isa erbyn Hydref 16eg os gwelwch yn dda.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH YN SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** am 7.00 nos Iau, Hydref 20fed gyda'r Parch. Thomas Evans Williams yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CEFN BERAIN** nos Iau, Hydref 20fed am 7.00 gyda'r Parch. Glenys Jones, Pwllheli yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL Y GROES** am 7.00 nos Wener, Hydref 21ain gyda'r Parch. Carwyn Siddall yn pregethu. Croeso i bawb.
- **"YR HEN A WYR A'R IFANC A DYBIA"** – beth mae'r Beibl yn ei ddweud tybed? Croeso i chi i Festri, Llansannan am 7.30 nos Fercher, Hydref 26ain.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Habacuc 3:17-19 (BCND tud.853 / BCN tud.777)

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9<sup>fed</sup> Hydref 2016

## Darlleniad y Dydd

1 Ioan 1:5-10

(BCND tud.263 / BCN tud.241)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i chi i oedfaon y dydd ym Mro Aled heddiw. Wrth i ni geisio'r Arglwydd gyda'n gilydd unwaith yn rhagor, diolchwn nad Duw pell yr ydym yn ei geisio ond Duw sydd wedi dod atom o'r nefoedd i ganol ein caledi a'n siomedigaethau. Yn Iesu Grist gwelwn Dduw yn gweithredu o'i fawr gariad er mwyn iacháu ac achub y colledig – gwaith a gwblhaodd y Mab trwy ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad bendigedig. A ninnau'n ymwybodol o brofedigaethau nifer o'n haelodau a'n cyfeillion, diolchwn felly bod trugaredd a gras ar gael i ninnau heddiw wrth i ni ildio i Grist a derbyn yr Ysbryd Glân, y Diddanydd yn rhodd.

Yn ystod y Cyfarfod Gweddi yn festri Groes yr wythnos hon, Salm 91 oedd yn mynd â'n sylw – un gyfarwydd i rai dosbarthiadau Ysgol Sul Oedolion. Wrth ddarllen trwyddi, roedd hi'n anodd peidio edmygu'r salmydd am ei hyder cadarn y byddai'r Arglwydd yn gwarchod ac yn rhoi diogelwch i'r crediniwr yn wyneb pob math o fygythiadau a thrafferthion. Ond nid ffydd ddall yr oedd yn ei annog ond gweithred fwriadol o ymddiried penodol (“fy Nuw, yr un yr ymddiriedaf ynddo.”) (Salm 91:2) Gwyddai'r Salmydd am yr hyn yr oedd Duw wedi'i wneud yn y gorffennol, ac mae rhai o addewidion yr Arglwydd yn cael eu cynnwys ar ddiwedd Salm 91:14-16. Oherwydd hyn, roedd sail sefydlog i'r gobaith yr oedd y salmydd yn cyfeirio ato – hyd yn oed pan oedd realiti sefyllfaoedd gwahanol yn awgrymu fod pethau'n anobeithiol o ddu. Gan fod Duw yn dragwyddol a'i Air yn fyw ac yn rymus, mae llyfr y Salmau wedi bod, ac yn parhau i fod yn gysur mawr i Gristnogion. Mae cymeriad ac addewidion Duw yn golygu y gallwn ymddiried ynddo – mae'n Hollalluog, yn Oruchaf, yn Arglwydd dros y cyfan ac yn bodoli heb neb i'w gynnal, ond eto mae'n barod i'w bobl gysgodi dan ei adenydd (ad. 4) ac i'w diogelu fel caer saff o'u cwmpas. Ac wrth gwrs, yn Iesu Grist mae holl addewidion Duw yn eiddo i'r Cristion (gw. 2 Corinthiaid 1:20). Oherwydd i Grist goncro pechod ac angau, gall y Cristion fynegi gyda Paul (Philipiaid 3:20) mai yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni, ym mhresenoldeb Duw waeth beth all ddigwydd yma ar y ddaear. Ac wrth i brofiadau anodd bywyd ddod i'n rhan, ymddiriedwn yng Nghrist yr achubwr gan gael ein cysuro nad oes unrhyw beth yn gallu ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. (Rhufeiniaid 8:39)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 9<sup>fed</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 11<sup>eg</sup>  
Iau – 13<sup>eg</sup>
- **Torri Syched** (seiat i'r dynion) yn y Granar, Llansannan am 7.30.
  - **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
  - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
  - **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Heulfryn, Llansannan am 7.30.
- Gwener – 14<sup>eg</sup>
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 15<sup>fed</sup>
- **Byw a Dweud – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill** gyda Michael Ots (efenglydd ac awdur) yn Y Bala. Croeso i ieuenctid 15+ ac oedolion o bob oed. Os am ffurflen archebu, ewch i wefan [www.souledoutcymru.net](http://www.souledoutcymru.net) neu cysylltwch â Choleg y Bala (01678 520565).
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Gwion yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 9<sup>fed</sup>
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod am 11.00. Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn mynd i'r Hen Ddeondy am 10.30 i gynnal gwasanaeth byr o ddiolchgarwch. Croeso i bawb.
- Mawrth – 11<sup>eg</sup>
- Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.
  - Oedfa Ddiolchgarwch yng nghwmni y Parch. Elfed ap Nefydd Roberts am 7.00 yng Nghefn Meiriadog. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 9<sup>fed</sup>
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Gwener – 14<sup>eg</sup>
- Oedfa Diolchgarwch Capel Peniel am 7.00 gyda'r Parch. Thomas Evans Williams yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch y plant a'r ieuenctid yn Saron am 2.00. Gwerthfawrogir eitemau i'r Banc Bwyd.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 9<sup>fed</sup>
- Cynhelir Oedfa Diolchgarwch i'r Teulu dan arweiniad Rhodri yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa. Bydd Pwyllgor Cymdeithas y Beibl yn cyfarfod am 7.30 yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees.
- Mercher – 12<sup>fed</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
  - Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Hydref 9fed, os gwelwch yn dda.**
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>
- Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
  - Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 9<sup>fed</sup>
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Llun – 10<sup>fed</sup>
- Gwasanaethau Diolchgarwch Henllan. Gwasanaeth am 2.00 gyda phlant yr Ysgol a'r Parch. Hywel Edwards yn rhoi sgwrs iddynt. Bydd pregeth gan y Parch. Hywel Edwards yn yr oedfa am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 12<sup>fed</sup>
- Cymdeithas Henllan yng nghwmni Mr Llyr Jones, Derwydd am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>
- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00, ac yn Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 9<sup>fed</sup>
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 16<sup>eg</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.